- datblygu ystod o glipiau ffilm ar gyfer y gweithle i staff gwasanaethau rheng flaen y cyngor;
- datblygu ymgyrch fwriadus i ddwyieithogi busnesau tref Caerfyrddin gan ddechrau cyfarfodydd LabordyDigidol i fusnesau a Brecwast Busnes drwy gydweithrediad RPD Sir Gâr;
- cydweithio ac wedi cynnig gwasanaeth cynllunio ieithyddol i fusnesau a mudiadau trydydd sector er mwyn dangos iddynt sut y gallant gynyddu'u gwasanaeth/gweithlu dwyieithog mewn modd ymarferol a thrwy gynlluniau gweithredu realistig.

**(v) Gwasanaethau Cymraeg: Cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion.**

Yn ystod y cyfnod sefydlu rydym wedi gweithio i ddatblygu ymwybyddiaeth trigolion, asiantaethau a busnesau preifat y dref o'r gwasanaethau sy'n bodoli i'w cefnogi yn y Gymraeg. Drwy sicrhau cartref i Fenter Gorllewin Sir Gâr a'r Cylch Meithrin, gellir arwain unigolion o'r dref i'r mannau gwasanaeth cywir er mwyn derbyn cyngor ac arweiniad ynghylch y Gymraeg yn ei chyflawnder. . Ein gobaith hir dymor yw cartrefu nifer cynyddol o gwmnïau a mentau all gefnogi'r Gymraeg yn y dref drwy gynnig gwasanaethau megis cyfieithu, golygu, dylunio, marchnata, ffilm a sain. Drwy weithio mewn partneriaeth gydag eraill, gallai'r Atom ddatblygu i fod yn ganolfan flaengar ar gyfer y Gymraeg yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau gan gynnig model y byddai modd i ganolfannau eraill ei hefelychu mewn mannau eraill yng Nghymru. Wrth ymateb i Strategaeth y Llywodraeth yn y cyd-destun hwn, mae'r Atom eisoes wedi:

- gweithredu fel siop ffenest i'r Gymraeg ar draws pob ystod oedran a phau cymdeithasol;
- sefydlu rhwydwaith i glystyrau o fusnesau, mudiadau trydydd sector, cyrff proffesiynol preifat i noddi ardal/gwagle yn y Ganolfan lle maent yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau cyfrwng Cymraeg;
- cynnig swyddfeydd er mwyn darparu unedau deor ar gyfer y sawl a fynn sefydlu busnesau Cymraeg o'r newydd;
- codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg drwy gydweithio a chyfrannu at waith Adran Farchnata a Thwristiaeth y Cyngor Sir;

- darparu ystafelloedd y gellid eu hurio gan fusnesau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog;
- cydweithio a chefnogi'r trydydd sector;
- cydweithio ac wedi cynnig gwasanaeth cynllunio ieithyddol i fusnesau a mudiadau trydydd sector er mwyn dangos iddynt sut y gallant gynyddu'u gwasanaeth/gweithlu dwyieithog mewn modd ymarferol a thrwy gynlluniau gweithredu realistig;

### (vi) Y Seilwiath: Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith.

Wrth sefydlu'r Atom, buddsoddwyd yn helaeth mewn technoleg gan sicrhau cyfleon i'w defnyddwyr weld gwerth a phwrpas yn y berthynas rhwng y Gymraeg a'r cyfryngau digidol. Mae'r ffaith fod teledu sgrin lydan yn arddangos rhaglenni S4C, gwefannau Cymraeg ac yn chwarae caneuon Cymraeg yn y caffi (heb fod wrth fodd pawb, rhaid cyfaddef) wedi tanlinellu cyfoesedd y Gymraeg. Yn yr un modd, mae'r ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg ymysg grwpiau cymunedol penodol wedi dwyn ffrwyth, gyda'r gymuned fusnes a phobl ifanc yn elwa'n benodol ar wasanaethau'r Atom.

Er dweud hyn, gwyddys fod gan Yr Atom lawer mwy o waith i'w wneud yn y cyd-destun hwn ac yn benodol yn nhermau clystyru sectorau a darparu cyrsiau gwasanaeth cwsmer ar eu cyfer, cynnig gwasanaeth cynllunio ieithyddol i fusnesau a mudiadau trydydd sector a darparu gwasanaeth cyfieithu i fusnesau'r dref.

- Wrth ymateb i Strategaeth y Llywodraeth yn y cyd-destun hwn, mae'r Atom eisoes wedi:buddsoddi mewn adnoddau fidio-gynadledda ar gyfer ei defnyddwyr;
- arddangos rhaglenni teledu a gwefannau Cymraeg yn gyhoeddus o fewn y ganolfan;
- sefydlu partneriaeth â S4C yng nghyd-destun rhaglenni Cyw;
- darparu modiwl ôl-raddedig ym maes cyfieithu ar y pryd (a fynychwyd gan 13 o gyfieithwyr proffesiynol);
- codi ymwybyddiaeth y gymuned fusnes o werth y Gymraeg trwy gyfrwng Brecwast Busnes;
- codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth y Gymraeg trwy gyfrwng cyrsiau amrywiol ar gyfer ysgolion uwchradd lleol a rhai o ysgolion y de-ddwyrain a fu'n ymwled â'r ardal.

## TYSTIOLAETH O'R HYN A GYFLAWNWYD

Mae'r **Atom** yn mynd o nerth i nerth! Fel sydd wedi ei nodi eisoes nid yn unig y mae'r ganolfan wedi talu ei ffordd yn ariannol yn ystod ei bodolaeth drwy gefnogaeth ariannol a chefnogaeth gwasanaethau adrannau amrywiol y Brifysgol, ond y mae hefyd wedi denu dros 70,000 o unigolion trwy ei drysau gogyfer â gwahanol ddigwyddiadau a drefnwyd o'i mewn. Yn wythnosol mae oddeutu 600 o unigolion yn defnyddio'r caffi gyda oddeutu 60% o'r cwsmeriaid yn ddi-gymraeg neu'n ddi-hyder yn eu Cymraeg.


Manteisiodd dros 60 o asiantaethau, busnesau, a chlybiau cymdeithasol amrywiol ar y cyfleusterau gan ddefnyddio'r ystafelloedd a'r ardal agored i ddiwallu eu hanghenion amrywiol. Braf yw gallu cofnodi ein bod wedi aros yn driw i'n hegwyddorion a'n polisi o sicrhau bod digwyddiadau neu weithgareddau'r ganolfan wedi cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n sicr yn ddwyieithog gyda chyfieithydd allanol yn bresennol ar gyfer rhai digwyddiadau.

Mae'r ffaith fod y ganolfan yn hyfyw mor gynnar yn ei hanes yn golygu bod y Brifysgol - gyda chefnogaeth y Pwyllgor Strategol - wedi datblygu cynllun strategol uchelgeisiol (Atodiad 2) ar ei chyfer wrth edrych ymlaen i'r cyfnod nesaf yn ei hanes. Yn naturiol mae'r cynllun hwnnw'n seiliedig ar nodau ac amcanion gwreiddiol y Ganolfan yn ogystal ag ar yr ystod o syniadau a grybwyllwyd mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Yr Atom yn ystod 2016. Mynychodd deugain a rhagor o unigolion y cyfarfod hwnnw a bu'r ymateb i weithgarwch cychwynnol Yr Atom yn hynod gadarnhaol. Darparwyd pamffled dwyieithog ar gyfer y cyfarfod ac amgaeir copi ohono er gwybodaeth yn Atodiad 3. O'r pamffled a ddyluniwyd ar gyfer yr achlysur gellir nodi y math o ddigwyddiadau a gyflawnwyd sy'n ymateb yn benodol i'r 4 thema a amlygodd eu hunain yn adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Llywodraeth *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith* a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2013.

[redacted]

Ymddengys o ffigwr 1.1 bod yna drawsdoriad eang o ddigwydiaddau ac achlysuron lle defnyddiwyd yr Atom i gefnogi chwe Maes Strategol *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen 2014-2017* yn ystod ei bodolaeth. Daw'r dystiolaeth o'r canfyddiadau i'r ffynhonell uchod o'r allbynnau dyddiol sydd wedi'u cofnodi ar system logi ystafelloedd ar-lein Yr Atom. O'r wybodaeth mae modd amcangyfrif y niferoedd a nodwyd yn flaenorol sydd wedi croesi trothwy'r Atom yn ystod y deunaw mis cyntaf. [redacted]

**Trawsdoriad Gweithgareddau Yr Atom, Hydref 2015 - Ebrill 2017**




Ffigwr 1.1 Ffynhonnell: Yr Atom Ebrill 2017

Wrth baratoi'r ddogfen hon manteiswyd ar ddulliau meintiol ac ansoddol i gefnogi'r testun gan gyflwyno'r allbynnau, canlyniadau a'r deilliannau dros gyfnod o ddeunaw mis. Ceiswyd cyfeirio at yr allbynnau'n gryno yn ffigyrau 1.1 a 1.2 a chanolbwyntio ar ganlyniadau a deilliannau penodol yn yr adroddiad.

[redacted]

Wrth fesur canlyniadau defnyddiwyd dulliau ymchwilio ar ffurf arsylwadau, cyfweliadau, ffotograffau sy'n cofnodi digwyddiadau a holiaduron yn benodol. Yn seiliedig ar y dulliau hynny aethpwyd ati i ddadansoddi'r wybodaeth yn feintiol ac yn ansoddol.

[redacted]

Wrth ddarllen yr allbynnau sy'n amlwg o ffigwr 1.1 gellir nodi bod cyfraniad y Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol yn ganran uchel o weithgarwch y Ganolfan. Drwy nodi arsylwadau a derbyn adroddiad ysgrifenedig gan Gydlynydd Ceredigion a Gorllewin Sir Gâr (Cymraegi i Oedolion) gelli'r nodi'r canlynol.

*'Rwy'n ymweld â'r dosbarthiadau yn yr Atom yn gyson, ac rwyf wedi arfarnu dau ddosbarth yno, sy'n cynnwys holi barn y dysgwyr am y lleoliad a'r adnoddau dysgu. Da gennyf ddweud fod pawb a holwyd, wrth eu boddau â'r ystod o gyrsiau a'r amserau a gynigir yno. Mae pawb a holwyd wrth eu boddau â'r lleoliad oherwydd ei safle hygyrch, ynghyd â'r cyfleusterau a gynigir yno megis nifer o ystafelloedd dysgu mawr pwrpasol, ynghyd â'r bwyty sy'n boblogaidd iawn. Rwy'n gwybod fod llawer yn achub ar y cyfle i fwyta yno amser cinio, lle clywant siaradwyr Cymraeg rhugl, a chânt gyfle i ymarfer eu Cymraeg gyda staff Yr Atom.*

*Mae'r ffaith fod pob un o'r ystafelloedd dysgu ar y llawr isaf yn sicrhau mynediad rhwydd i bobl ag anawsterau symudoledd. Mae'r dysgwyr eu hunain yn hapus iawn gyda'r adnoddau cefnogi. Mae uwchdaflunyddion a sgriniau wal mawr yn y ddwy ystafell ddysgu fwyaf, y gellir cysylltu gliniadur â nhw i ddangos fideos, cyflwyniadau PPT a chael mynediad â'r we. Hefyd, mae'r Gofod i fyny'r grisiau'n eithriadol o boblogaidd fel lle i ymgynnull ac ymlacio ar gyrsiau atodol fel Sadyrnau Siarad ac ysgolion Pasg a haf. Mae hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio fel ystafell ddosbarth ychwanegol os bydd angen.'*

Wrth ystyried y meysydd strategol ymddengys o'r dystiolaeth ansoddol fod cyfraniad y Ganolfan yn sylweddol i ddatblygu'r defnydd a wneir o'r iaith yn ystod y dosbarthiadau ynghyd â'r cyfleoedd mae'r Ganolfan yn eu cynnig iddynt ymarfer a chlywed yr iaith yn gymdeithasol sy'n gam naturiol o gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith o fewn amgylchedd Gymraeg.



[redacted]

[redacted]

Gellir nodi mai un o brif lwyddianau'r Ganolfan ers ei sefydlu fu adleoli a chartrefu Cylch Ti a Fi tref Caerfyrddin i'r Atom gan fuddsoddi'n sylweddol mewn ystafell bwrpasol a derbyn cefnogaeth S4C i noddi wal 'Cyw' ar eu cyfer. Ers ymgartrefu yn ystod mis Ionawr 2016 mae'r Cylch Meithirn drwy gefnogaeth y Mudiad Meithrin wedi bod yn cynnal sesiynau boreol o 9:15yb tan 11:15yb yn wythnosol lle mae 12 plentyn yn mynychu'n rheolaidd er bo 23 o blant ar y gofrestr gyda'r rhan fwyaf yn ddwyflwydd a nifer fechan yn dair oed.

Yn ogystal mae'r sesiynau Cylch Ti a Fi sy'n cael eu cynnal rhwng 11:15yb a 12:15yp wedi profi'n hynod lwyddiannus gyda rhwng 5 a 12 yn mynychu'n ddyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener ers Ionawr 2016. Profa'r sesiynau yma'n werthfawr gan fo 50% o'r rhieni yn ddi-gymraeg. Yn ystod y sesiynau bydd y rhiant yn bresennol i gefnogi gweithgarwch y Cylch gan fanteisio ar ddatblygu a chyfathrebu drwy'r Gymraeg. Yn ychwanegol i hynny gwneir defnydd o'r caffi yn rheolaidd a gwelir y rhieni Cymraeg a di-gymraeg yn rhyngweithio'n gymdeithasol yno.

Mewn cyfweliad ag arweinydd y Cylch, sydd ag ugain mlynedd o brofiad yn gweithio yn y blynyddoedd cynnar, dywedodd fod '*y plant yn mwynhau'r sesiynau a dysgu drwy chwarae, cael hwyl, sylw a dysgu sgiliau a derbyn addysg cyn ysgol gan gyfathebu'n y Gymraeg.*' Gwelai fanteision o gynnal y Cylch Meithrin yn y Ganolfan gan gydnabod bod modd '*hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliad cyfleus a deniadol i anghenion ieithyddol y plant*'.

[redacted]

Hyderwn y bydd modd i'r Atom gydweithio'n agos â'r Cylch yn ystod y misoedd nesaf er mwyn cyrraedd y nod o gofrestru nifer uwch o blant gan sicrhau hefyd ein bod yn cydymffurfio â rheoliadau Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Ynystod mis Hyderf 2016, sef blwyddyn yn union ar ôl sefydlu'r Atom, cynhaliwyd ymchwil ar ffurf holiaduron er mwyn casglu ymateb defnyddiwyr Yr Atom o blith y bobl ifanc. Nodwyd o'r 40 holiadur a gwblhawyd eu bod yn ymweld â'r Atom

unwaith yr wythnos i fynychu gweithgareddau a credai 70% ohonynt bod y Ganoflan yn hwb i'r iaith. Roedd 60% o'r farn fod ystafell gymdeithasu Y Gofod yn addas ar eu cyfer gyda nifer wedi cofrestru i fynediad WiFi y Ganolfan.

Roedd canran uwch sef 80% yn hapus â'r gweithgareddau ar eu cyfer yn yr Atom. Er hynny, nodwyd y buasai cefnogaeth bellach i weithgareddau amgen megis sesiynau neu glwb coginio, mynychu gigs, gweithgareddau ynghlwm â'u hysgol, nosweithiau cwis teuluol a gwylio gemau pêl-droed neu rygbi. Yn unol a' dymuniadau mae'r Ganolfan wedi ymateb i'r galw gan gynllunio'n bwrpasol ar - eu cyfer. O'r ymatebion a dderbyniwyd, cofnododd 75% o'r bobl ifanc a holwyd eu bod yn siarad Cymraeg â'u ffrindiau'n rheolaidd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.

Bu Menter Gorllewin Sir Gâr yn gefnogol iawn i'r Ganolfan drwy gynllunio, a chynnal ystod o weithgareddau mewn partneriaeth â'r Atom gan ymateb i feysydd penodol o'r Strategaeth, yn enwedig *Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.* Noder y prif gyflawniadau islaw:

| **Gweithgareddau Menter Gorllewin Sir Gâr yn yr Atom<br>Medi 2015 hyd at Ebrill 2017** | | |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Nifer o sesiynau** | **Mynychwyr** |
| **Yoga** | 26 | 69 (wedi cyfri y bobl unwaith ym mhob cyfres o sesiynau) |
| **Bore hwyl** | 4 | 380 |
| **Zumba** | 17 | 51 (wedi cyfri y bobl unwaith ym mhob cyfres o sesiynau) |
| **Nosweithiau Cymdeithasol** | 3 | 75 |
| **Clwb ffotograffiaeth** | 25 | 20 (wedi cyfri y bobl unwaith ym mhob cyfres o sesiynau) |
| **Clwb Ieuenctid** | 51 | 120 (wedi cyfri y bobl unwaith ym mhob cyfres o sesiynau) |
| **Dawnsio Stryd** | 35 | 86 (wedi cyfri y bobl unwaith ym mhob cyfres o sesiynau) |

| | | |
|---|---|---|
| **Clwb Clecs** | 3 | 80 |
| **Ffair Nadolig** | 2 | 500 |
| **Sesiynau Cymdeithasol i blant** | 10 | 342 |
| **Groto Sion Corn** | 6 | 209 |
| **Cyfarfodydd** | 152 | 456 |
| **Brecwast Busnes** | 1 | 45 |
| **CYFANSWM** | **335** | **2,122 (4,617 os yn cyfri pob person pob sesiwn.)** |

Ffigwr 1.2 Ffynhonnell: Menter Gorllewin Sir Gâr Ebrill 2017

Hyderwn y bydd modd datblygu'r bartneriaeth ymhellach dros y cyfnod nesaf drwy gydweithio ar brosiectau ar y cyd, trwy gynnig am grantiau fel partneriaid a chynyddu'r arlwy y gallwn eu cynnig i blant a phobl ifanc yn ystod yr hwyr ac ar benwythnosau yn Yr Atom.

Wrth fynd ati i ddadansoddi holiaduron a dderbyniwyd gan oedolion yn benodol yn dilyn blwyddyn o fodolaeth y Ganolfan fe nododd 80% o'r oedolion a gymrodd ran yn yr holiadur eu bod yn ymweld â'r Atom unwaith yr wythnos ar gyfartaledd. Roedd dros 75% o'r farn bod y Ganolfan yn hwb i'r iaith Gymraeg. Doedd gan y gweddill ddim barn wrth ymateb i'r cwestiwn penodol hwn.

Ymhlith y gweithgareddau y byddent yn dymuno ei weld yn yr Atom, nodwyd

- gweithgareddau ar gyfer plant ail iaith a'u rhieni/athrawon
- sioeau Nadolig ar gyfer ysgolion a meithrinfeydd
- nosweithiau cerddorol
- mwy o gysylltiadau gyda busnesau'r dref
- cyfle i siarad â dysgwyr eraill
- arddangosfeydd
- clybiau darllen
- boreau coffi
- sesiynau crefft
- nosweithiau cymdeithasol yng nghwmni beirdd, llenorion a dramodwyr.

[redacted]

Fe ddaeth hi'n amlwg o'r canlyniadau fod pobl yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau er mwyn darganfod gwybodaeth am weithgareddau'r Atom, o e-byst i'r wefan, i Facebook a Thrydar yn ogystal â'u ffrindiau'n lledu'r gair. Serch hynny, o'r ymatebion a dderbyniwyd, posteri yn Yr Atom oedd yr ateb mwyaf poblogaidd. Dylid nodi ein bod yn dosbarthu pamffledi i ysgolion yn dymhorol yn unol â'r gweithgareddau a drefnir, ond digon siomedig yw'r ymateb gyda chanran fechan iawn yn nodi eu bod wedi mynychu digwyddiad yn Yr Atom ar ôl derbyn pamffled yn yr ysgol.

Ymhlith y defnyddwyr llai cyson, sef unwaith y mis, a ymatebodd i'r holiaduron, nodwyd y syniad o gynnal nosweithiau cymdeithasol dwyieithog yn Yr Atom, er mwyn annog y di- Gymraeg i ddefnyddio'r Ganolfan. Ein bwriad drwy'r Pwyllgor Strategol a Gweithredol yw ymateb "r sylwadau o'r dadansoddiad meintiol ac ansoddol er mwyn ymateb "r galw gan gadw mewn golwg ein prif nod dros sefydlu'r Ganolfan sef *'dwyieithogi tref Caerfyrddin gyda phwyslais penodol ar wneud y Gymraeg yn fwy* ***gweladwy*** *a* ***chlywadwy*** *o gwmpas y dref.'*

## HUNAN-ASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD A DYLANWAD Y PROSIECT

Mae'r Atom yn bodoli diolch i fuddsoddiadau sylweddol o du Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Yn sgil y buddsoddiadau hyn, mae'r rheini sydd ynghlwm â'r prosiect yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldeb sydd arnynt i sicrhau bod y Ganolfan yn dwyn ffrwyth o ran hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerfyrddin gan sicrhau y bydd yr iaith yn llawer mwy gweladwy a chlywadwy yn y dref yn ystod y blynyddoedd nesaf. Gellid dadlau bod y gwreiddiau wedi eu gosod yn ystod y deunaw mis diwethaf – gyda'r ganolfan yn datblygu'n ffocws amlwg o fewn y dref – a'r nod bellach yw adeiladu ar y sylfeini a osodwyd trwy weithredu'r Cynllun Strategol y mae Pwyllgor Strategol Yr Atom a Phwyllgor Materion Cymraeg y Brifysgol yn ei ystyried ar hyn o bryd. Y Cynllun Strategol hwn fydd wrth wraidd gweithgarwch Yr Atom am y ddwy flynedd nesaf gyda phwyslais cynyddol ar gydweithio a rhannu adnoddau gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill.

Byddai'r mwyafrif yn dadlau bod Yr Atom wedi cyfrannu'n fawr at y broses o hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerfyrddin er 2015. Byddai lleiafrif, serch hynny, o'r farn y gellid bod wedi cyfrannu'n helaethach, yn enwedig yng nghyd-destun denu mwy o siaradwyr dihyder i ddefnyddio' Cymraeg yn y dref. Y gwir amdani yw buan y sylweddolwyd na fyddai'r Atom yn gallu cyflawni'r cyfan yr oedd wedi gobeithio ei gyflawni fel Canolfan Gymraeg Caerfyrddin. Erys yr un her sylweddol i'r Atom heddiw ag a fodolai yn Hydref 2015, sef prinder staff i weithredu'r amcanion y cytunwyd arnynt. Nid yw cyflogi un Rheolydd yn mynd i gael yr effaith arwyddocaol ar y Gymraeg ag y gobeithid. Os yw'r Atom (a'r canolfannau Cymraeg eraill) i ddwyn ffrwyth yn y pen draw, bydd angen ystyried dulliau o gyllido swyddi eraill o'u mewn cyn gynted ag y bo modd. Croesëwir yn fawr y camau y mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi eu cymryd er mwyn mynd â'r maen i'r wal.

Gellid dadlau y bu'r prosiect yn llwyddiant hyd yn hyn yn nhermau denu cynulleidfaoedd amrywiol i ddefnyddio adnoddau'r Ganolfan. Mae'r data a rannwyd uchod yn cydnabod hyn. Yn yr un modd, llwyddodd i godi proffil y Gymraeg yn y dref gan weithredu fel ffocws ar gyfer gweithgareddau amrywiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Da yw gweld, serch hynny, fod canolfannau eraill yn y dref megis Clwb y Cwins, Y Parot, Llyfrgell y Dref a chapeli lleol wedi parhau i gynnal gweithgareddau Cymraeg yn rheolaidd – mae hyn oll yn arwydd gobeithiol fod y Gymraeg ar gynnydd yn gymdeithasol yn y dref.

Teg fyddai nodi fod dylanwad Yr Atom yn dechrau dangos ar gymdeithasau, grwpiau a chyrff cyfrwng Saesneg y dref, gyda nifer ohonynt yn defnyddio rhai o adnoddau'r Atom o bryd i'w gilydd ac, o'r herwydd, yn gorfod dwyieithogi agendâu eu cyfarfodydd a'u gwefannau. Gwyddys mai araf iawn y dylanwadir ar gyrff o'r fath, ond mae'r gwaith hwnnw wedi cychwyn o ddifrif erbyn hyn a, thros y blynyddoedd nesaf, hyderir y gwelir y Gymraeg yn cael lle amlycach o lawer ym mywyd cyhoeddus y dref o ganlyniad i ymdrechion Yr Atom.

Un gymuned a ddangosodd ddiddordeb pendant i gydweithio â'r Atom yn ystod cyfnod nesaf ei datblygiad yw'r gymuned fusnes. Dangosodd y Brecwast Busnes a

[redacted]

gynhaliwyd yn Yr Atom fis Chwefror fod y gymuned honno'n awyddus iawn i fanteisio ar wasanaethau'r Atom i (i) hyrwyddo'r Gymraeg ymysg eu staff; (ii) ddysgu'r staff di-Gymraeg sut i gyfarch cwsmeriaid mewn cyd-destun dwyieithog; (iii) Gymreigio eu gwefannau a'u cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac i (iv) gyfieithu arwyddion a deunydd marchnata. Bydd ymateb i'r gofynion hyn ar frig gweithgawrch y ganolfan yn ystod y ddwy flynedd nesaf wrth iddi weithredu ei Chynllun Strategol newydd.

[redacted]

Teimlwn fod Yr Atom, felly, wedi llwyddo i gyflawni ei hamcanion cychwynnol. Datblygodd i fod yn ganolfan fywiog ar gyfer y gymuned leol; sefydlodd bartneriaethau effeithiol â sawl menter, corff a mudiad er lles y Gymraeg yn y dref a'r cyffiniau; cartrefodd fusnesau a mentrau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghaerfyrddin; cydweithiodd yn agos â mudiadau/mentrau i ddarparu rhaglen gynyddol o weithgareddau Cymraeg ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol yn y dref a dechreuodd hefyd ar y gwaith pwysig o ddarparu gwasanaethau cefnogol i fusnesau'r dref.

## GWERSI A DDYSGWYD WRTH GYNNAL Y PROSIECT

Dros y deunaw mis diwethaf, mae'r rheini a fu'n gweithio yn enw'r Atom wedi wynebu heriau sylweddol yn ogystal â phrofi boddhad amlwg wrth gydweithio gydag unigolion, asiantaethau a busnesau yn nhref Caerfyrddin er mwyn cyrraedd y nod cychwynnol o sefydlu'r ganolfan yn gyrchfan bywiog, hyfyw a chynaliadwy. Dysgwyd sawl gwers bwysig e.e. rhaid oedd diffinio union swyddogaeth y ganolfan mewn perthynas â chyrff/mudiadau eraill sy'n gweithio o blaid y Gymraeg yn y dref; rhaid oedd wrth staff digonol i weithredu'r weledigaeth y cytunwyd arni a rhaid oedd derbyn na ellid cyflawni'r cyfan dros nos. Fel y nodwyd, prosiecct hir dymor yw'r Atom a rhaid i garedigion yr iaith, sy'n disgwyl gweld newidiadau arwyddocaol yn y dref yn y tymor byr, dderbyn hynny.

Er gwaethaf rhai rhwystredigaethau mewnol cychwynnol, rhaid cydnabod y bu'r cydweithio rhwng y Brifysgol a swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr yn ardderchog. Ni ellid bod wedi gofyn am fwy o gefnogaeth.

Bu'r bartneriaeth â'r gymuned leol yn un adeiladol hefyd a bu'r ymgynghoriadau cyhoeddus e.e. ynghylch enw'r ganolfan ynghyd â'i blaenoriaethau yn ymarferion gwerth chweil.

Wrth edrych ymlaen i'r dyfodol, bydd y Cynllun Strategol newydd a gaiff ei fabwysiadu fis Mai 2017 yn gosod llwybr clir i'r Atom ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. O'i weithredu'n fanwl, rydym yn hyderus y bydd y ganolfan yn parhau i fod yn fusnes cynaliadwy ar y naill law ac yn gatalydd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y dref. Mi fyddwn, wrth gwrs, yn parhau i fireinio a gwerthuso'n cynlluniau, yn enwedig yng nghyd-destun cyhoeddi Strategaeth Gymraeg newydd gan Lywodraeth Cymru yr haf hwn.

**Gwybodaeth heb ei ryddhau**